**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1941 (Cy.139)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi swyddogaethau ychwanegol i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, corff corfforaethol a sefydlwyd gan Orchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 1998, a wnaed o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, adran 8. O dan Ddeddf 1998 mae swyddogaethau'r Cyngor yn cynnwys sefydlu a chadw cofrestr o athrawon ac athrawesau, cyhoeddi Cod Ymarfer yn nodi'r safonau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol a ddisgwylir oddi wrth athrawon ac athrawesau cofrestredig, arfer pwerau disgyblu mewn perthynas ag athrawon ac athrawesau cofrestredig a phersonau sy'n gwneud cais am gofrestru a rhoi cyngor ynghylch materion addysgu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill.

Y swyddogaethau ychwanegol y mae'r Gorchymyn hwn yn eu rhoi yw cadw cofnodion ar ffurf ysgrifenedig neu electronig mewn perthynas â'r categorïau o bersonau a grybwyllir yn Rhan I o'r Atodlen i'r Gorchymyn. Personau yw'r rhain sy'n:

(i) athrawon neu athrawesau y mae eu henwau wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr,

(ii) rhai athrawon neu athrawesau sy'n anghymwys i'w cofrestru,

(iii) athrawon neu athrawesau a chanddynt statws athro neu athrawes gymwysedig sydd heb gofrestru,

(iv) personau sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant athrawon ac athrawesau,

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1941 (W.139)

# EDUCATION, WALES

## The General Teaching Council for Wales (Additional Functions) Order 2000

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order confers additional functions on the General Teaching Council for Wales, a body corporate established by the General Teaching Council for Wales Order 1998, made under the Teaching and Higher Education Act 1998, section 8. The Council's functions under the 1998 Act include establishing and maintaining a register of teachers, issuing a Code of Practice laying down the standards of professional conduct and practice expected of registered teachers, exercising disciplinary powers in relation to registered teachers and persons applying for registration and giving advice about teaching issues to the National Assembly for Wales and others.

The additional functions conferred by this Order are to maintain records in a written or electronic form relating to the categories of persons mentioned in Part I of the Schedule to the Order. These are:

(i) teachers whose names have been removed from the register,

(ii) certain teachers who are ineligible for registration,

(iii) teachers with qualified teacher status who are not registered,

(iv) persons who have undertaken teacher training,

(v) rhai athrawon neu athrawesau sydd heb ennill cymhwyster,

(vi) athrawon neu athrawesau anghofrestredig sy'n paratoi at y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth,

(vii) personau anghofrestredig y mae ganddynt rif cyfeirnod fel athro neu athrawes ac sy'n gweithio neu sydd wedi gweithio yn y gorffennol fel athrawon neu athrawesau.

Nodir yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y cofnodion yn Rhan II o'r Atodlen ac mae'n debyg i'r wybodaeth sydd i'w chofnodi ar y gofrestr mewn perthynas ag athrawon neu athrawesau cofrestredig.

(v) certain unqualified teachers,

(vi) unregistered teachers preparing for the National Professional Qualification for Headship,

(vii) unregistered persons who have a teacher reference number and who are, or have in the past been, serving teachers.

The information to be included in the records is set out in Part II of the Schedule and is similar to the information to be recorded on the register in relation to registered teachers.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1941 (Cy.139)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *19 Gorffennaf 2000* |
| *Yn dod i rym* | *1 Medi 2000* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 7(1) a (4) a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998**(a)** ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru**(b)**, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod o'r farn ei bod yn briodol, o gofio amcanion cyffredinol Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, i'r Cyngor gyflawni'r swyddogaethau ychwanegol a roddir drwy hyn, ac ar ôl ymgynghori fel y gwêl yn dda, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000 a daw i rym ar 1 Medi 2000.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn -

ystyr "athro neu athrawes cynllun carlam" (*"fast track teacher"*) yw athro neu athrawes ddosbarth y mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth neu asesydd a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol wedi eu hardystio felly;

ystyr "athro neu athrawes gofrestredig" (*"registered teacher"*) yw person sydd am y tro wedi'i gofrestru o dan adran 3 o Ddeddf 1998;

mae i "athro neu athrawes gymwysedig" yr un ystyr ag a roddir i "*qualified teacher*" yn adran 218(2) o Ddeddf 1988**(c)**;

(a) 1998 p.30. Yn effeithiol o 1 Medi 2000 ymlaen, bydd y darpariaethau perthnasol yn gymwys mewn perthynas â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adrannau 8 a 9 o Orchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 1998 (O.S. 1998/2911). I gael ystyr "prescribed" a "regulations" gweler adran 43(1).

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) Adeg gwneud y Gorchymyn hwn y rheoliadau mewn grym o dan y ddarpariaeth hon ar gyfer Cymru oedd Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999 (O.S. 1999/2817). Adeg gwneud y Gorchymyn hwn y rheoliadau mewn grym o dan y ddarpariaeth hon ar gyfer Lloegr oedd Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Lloegr) 1999 (O.S. 1999/2166).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1941 (W.139)

# EDUCATION, WALES

## The General Teaching Council for Wales (Additional Functions) Order 2000

| | |
|---|---|
| *Made* | *19th July 2000* |
| *Coming into force* | *1st September 2000* |

In exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 7(1) and (4) and 42(6) and (7) of the Teaching and Higher Education Act 1998**(a)** and now vested in the National Assembly for Wales**(b)**, the National Assembly for Wales, being of the opinion that the General Teaching Council for Wales may, having regard to their general objectives, appropriately discharge the additional functions hereby conferred and having carried out such consultation as appears to it to be appropriate, makes the following Order:

**1.** This Order may be cited as the General Teaching Council for Wales (Additional Functions) Order 2000 and shall come into force on 1st September 2000.

**2.** In this Order-

"the 1988 Act" (*"Deddf 1988"*) means the Education Reform Act 1988**(c)**;

"the 1998 Act" (*Deddf 1998"*) means the Teaching and Higher Education Act 1998;

"advanced skills teacher" (*"athro neu athrawes uwch-fedrau"*) means a teacher who has been certified by an assessor appointed by the Secretary of State for Education and Employment as eligible for appointment to an advanced skills teacher post;

(a) 1998 c.30. With effect from 1st September 2000 the relevant provisions will apply in relation to the General Teaching Council for Wales by virtue of sections 8 and 9 and the General Teaching Council for Wales Order 1998 (S.I. 1998/2911). For the meaning of "prescribed" and "regulations" see section 43(1).

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) 1988 c.40.

ystyr "athro neu athrawes sydd wedi croesi'r trothwy" (*"teacher who has passed the threshold"*) yw athro neu athrawes y mae asesydd a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth wedi ardystio eu bod wedi croesi'r trothwy perfformiad a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, neu y mae pennaeth neu berson arall wedi eu hardystio felly o dan drefniadau sydd wedi'u cymeradwyo gan asesydd;

ystyr "athro neu athrawes uwch-fedrau" (*"advanced skills teacher"*) yw athro neu athrawes sydd wedi'u hardystio gan asesydd a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth yn un sy'n gymwys i'w penodi i swydd athro neu athrawes uwch-fedrau;

mae "cyflogaeth" (*"employment"*) mewn perthynas â chyflogaeth athro neu athrawes yn cynnwys rhoi gwaith i'r athro neu'r athrawes neu trefnu rhoi gwaith iddynt er mwyn iddynt ddarparu eu gwasanaeth fel athro neu athrawes heblaw o dan gontract cyflogaeth, a dehonglir "cyflogi" (*"employed"*) yn unol â hynny;

ystyr "cyfnod ymsefydlu" (*"induction period"*) yw cyfnod ymsefydlu a fwrir yn unol â rheoliadau o dan adran 19 o Ddeddf 1998**(a)**;

ystyr "y Cyngor" (*"the Council"*) yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" (*"the National Assembly"*) yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Deddf 1988" (*"the 1988 Act"*) yw Deddf Diwygio Addysg 1988**(b)**;

ystyr "Deddf 1998" (*"the 1998 Act"*) yw Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998; ac

ystyr "y Gofrestr" (*"the Register"*) yw'r gofrestr o athrawon ac athrawesau y mae'n ofynnol i'r Cyngor ei sefydlu a'i chadw yn unol ag adran 3 o Ddeddf 1998 a rheoliadau a wnaed o dan adran 4 o'r Ddeddf honno, a dehonglir "cofrestru" (*"registration"*) yn unol â hynny.

(a) Adeg gwneud y Gorchymyn hwn nid oedd rheoliadau mewn grym o dan y ddarpariaeth hon mewn perthynas â Chymru. Adeg gwneud y Gorchymyn hwn y rheoliadau mewn grym o dan y ddarpariaeth hon mewn perthynas â Lloegr oedd Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu Athrawon Ysgol) (Lloegr) 1999 (O.S. 1999/1065) a ddiwygiwyd gan O.S. 1999/2211.

(b) 1988 p.40.

"the Council" (*"y Cyngor"*) means the General Teaching Council for Wales;

"employment" (*"cyflogaeth"*) in relation to the employment of a teacher includes the engagement or the making of arrangements for the engagement of that teacher to provide his or her services as a teacher otherwise than under a contract of employment, and "employed" (*"cyflogi"*) shall be construed accordingly;

"fast track teacher" (*"athro neu athrawes cynllun carlam"*) means a classroom teacher who has been certified as such by the Secretary of State for Education and Employment or by an assessor appointed by the Secretary of State;

"induction period" (*"cyfnod ymsefydlu"*) means an induction period served in accordance with regulations under section 19 of the 1998 Act**(a)**;

"the National Assembly" (*"y Cynulliad Cenedlaethol"*) means the National Assembly for Wales;

"qualified teacher" (*"athro neu athrawes gymwysedig"*) has the same meaning as in section 218(2) of the 1988 Act**(b)**;

"the Register" (*"y Gofrestr"*) means the register of teachers which the Council are required to establish and maintain in accordance with section 3 of the 1998 Act and regulations made under section 4 of that Act, and "registration" (*"cofrestru"*) shall be construed accordingly;

"registered teacher" (*"athro neu athrawes gofrestredig"*) means a person for the time being registered under section 3 of the 1998 Act; and

"teacher who has passed the threshold" (*"athro neu athrawes sydd wedi croesi'r trothwy"*) means a teacher who has been certified by an assessor appointed by the Secretary of State for Education and Employment as having passed the performance threshold determined by the Secretary of State, or who has been so certified by a head teacher or other person under arrangements approved by an assessor.

(a) When this Order was made there were no regulations in force under this provision in relation to Wales. At the time of making this Order the regulations in force under this provision in relation to England were the Education (Induction Arrangements for School Teachers) (England) Regulations 1999 (S.I. 1999/1065) amended by S.I. 1999/2211.

(b) At the time of making this Order the regulations in force for Wales under this provision were the Education (Teachers' Qualifications and Health Standards) (Wales) Regulations 1999 (S.I. 1999/2817). At the time of making this Order the regulations in force for England under this provision were the Education (Teachers' Qualifications and Health Standards) (England) Regulations 1999 (S.I. 1999/2166).

**3.-**(1) Drwy hyn rhoddir i'r Cyngor y swyddogaeth ychwanegol o gadw cofnodion sy'n ymwneud â'r categorïau o bersonau a restrir yn Rhan I o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Bydd y cofnodion a grybwyllir ym mharagraff (1) yn cynnwys yr wybodaeth a restrir yn Rhan II o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn i'r graddau y mae'n gymwys i'r person o dan sylw.

(3) Caiff y cofnodion a grybwyllwyd ym mharagraff (1) eu cadw ar ffurf ysgrifenedig neu ar ffurf electronig.

**3.-**(1) There is hereby conferred on the Council the additional function of maintaining records relating to the categories of persons listed in Part I of the Schedule to this Order.

(2) The records mentioned in paragraph (1) shall contain the information listed in Part II of the Schedule to this Order in so far as applicable to the person concerned.

(3) The records mentioned in paragraph (1) shall be kept in written or electronic form.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(a)**.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998**(a)**.

19 Gorffennaf 2000

19th July 2000

*Dafydd Elis Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

## ATODLEN

**Erthygl 3**

### RHAN I

**Personau y mae'n ofynnol i'r Cyngor gadw cofnodion mewn perthynas â hwy**

**1.** Personau y mae eu henwau wedi'u tynnu oddi ar y Gofrestr heblaw rhai y cafodd eu henwau eu tynnu ar eu cais hwy eu hunain neu sydd wedi marw.

**2**. Personau sy'n anghymwys i'w cofrestru yn rhinwedd adran 3(3)(a) i (c) a (4) o Ddeddf 1998.

**3.** Athrawon neu athrawesau cymwysedig nad ydynt yn athrawon neu athrawesau cofrestredig.

**4.** Personau nad ydynt yn athrawon neu athrawesau cofrestredig, sydd wedi dechrau cwrs o hyfforddiant cychwynnol i athrawon ac athrawesau, p'un a ydynt wedi cwblhau'r cwrs hwnnw neu beidio.

**5.** Personau nad ydynt yn athrawon neu athrawesau cymwysedig ac sy'n cael eu cyflogi yn athrawon neu athrawesau mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdod addysg lleol.

**6.** Personau nad ydynt yn athrawon neu athrawesau cofrestredig ac sy'n paratoi at Gymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol Prifathrawiaeth, neu wedi'i ennill.

**7.** Personau nad ydynt yn perthyn i unrhyw un o'r categorïau uchod ac nad ydynt yn athrawon neu athrawesau cofrestredig, sydd -

(a) â rhif cyfeirnod swyddogol wedi'i ddyrannu iddynt; a

(b) yn cael eu cyflogi, neu wedi cael eu cyflogi ar unrhyw adeg, yn athro neu'n athrawes mewn ysgol neu sefydliad addysgol arall.

### RHAN II

**Yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y cofnodion**

**1.** Y rhif cyfeirnod swyddogol, os oes un, a ddyrannwyd i'r person.

**2.** Ai gwryw ynteu fenyw yw'r person.

**3.** Dyddiad geni'r person.

**4.** Os yw'n hysbys, unrhyw enw y câi'r person ei adnabod wrtho o'r blaen.

**5.** Os yw'n hysbys, i ba grŵp hil y mae'r person yn perthyn.

**6.** Os yw'n hysbys, a yw'r person yn anabl.

## SCHEDULE

**Article 3**

### PART I

**Persons relating to whom the Council is required to maintain records**

**1**. Persons whose names have been removed from the Register other than those whose names were removed at their own request or who have died.

**2.** Persons who are ineligible for registration by virtue of section 3(3)(a) to (c) and (4) of the 1998 Act.

**3.** Qualified teachers who are not registered teachers.

**4.** Persons who are not registered teachers who have started a course for the initial training of teachers, whether or not they have completed such course.

**5.** Persons who are not qualified teachers who are employed as teachers in schools maintained by a local education authority.

**6.** Persons who are not registered teachers who are preparing for, or who have obtained, the National Professional Qualification for Headship.

**7.** Persons not falling within any of the above mentioned categories and who are not registered teachers, who-

(a) have had an official reference number assigned to them; and

(b) are, or have at any time been, employed as a teacher at a school or other educational institution.

### PART II

**Information to be contained in the records**

**1.** The official reference number, if any, assigned to the person.

**2.** Whether the person is male or female.

**3.** The person's date of birth.

**4.** If known, any name by which the person was formerly known.

**5.** If known, the racial group to which the person belongs.

**6.** If known, whether the person is disabled.

**7.** Cyfeiriad cartref y person, neu gyfeiriad cyswllt arall, rhif ffôn, rhif cyflunydd a chyfeiriad post electronig.

**8.** Rhif yswiriant gwladol y person.

**9.-**(1)Os yw'n hysbys, pan yw'r person yn cael ei gyflogi fel athro neu athrawes -

(a) enw, cyfeiriad, rhifau ffôn a chyflunydd a chyfeiriad post electronig yr ysgol neu'r sefydliad lle mae'r person yn cael ei gyflogi i addysgu;

(b) manylion y math o ysgol neu sefydliad lle mae'r person yn cael ei gyflogi i addysgu ac enw'r awdurdod addysg lleol sy'n cynnal yr ysgol neu'r sefydliad os yw hynny'n gymwys;

(c) ai cyflogaeth amser-llawn neu ran-amser ydyw;

(ch) y swydd sydd gan y person; a

(d) y dyddiad yr ymgymerodd y person â'i swydd bresennol.

(2) Pan nad yw'r person yn cael ei gyflogi fel athro neu athrawes ar hyn o bryd, y dyddiad diwethaf pryd yr oedd yn cael ei gyflogi felly, a'r manylion ym mharagraffau (a) i (d) o is-baragraff (1) mewn perthynas â'i swydd addysgu ddiweddaraf.

**10.** A yw'r person wedi ymddeol, yn cymryd saib gyrfa, yn ddi-waith neu yn cael ei gyflogi heblaw fel athro neu athrawes.

**11.** Pan fo gan y person radd neu gymhwyster cyfatebol -

(a) y dyddiad y'i dyfarnwyd;

(b) y teitl;

(c) y sefydliad a'i dyfarnodd;

(ch) dosbarth y radd neu'r cymhwyster; a

(d) y pwnc.

**12.** Y dyddiad yr enillodd y person gymhwyster athro neu athrawes.

**13.** Y dyddiad yr ymgymerodd y person â'i swydd gyntaf fel athro neu athrawes gymwysedig.

**14.** Pan yw'r person wedi cwblhau cwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon neu athrawesau yn llwyddiannus -

(a) enw'r sefydliad a ddarparodd y cwrs;

(b) teitl neu ddisgrifiad y cwrs;

(c) y pwnc neu'r pynciau a astudiwyd gan y person;

(ch) oedrannau'r disgyblion y bwriadwyd y cwrs i baratoi'r person i'w haddysgu; a

**7.** The person's home address, or other contact address, telephone number, facsimile number and electronic mail address.

**8.** The person's national insurance number.

**9.-**(1) If known, where the person is employed as a teacher-

(a) the name, address, telephone and facsimile numbers and electronic mail address of the school or institution at which the person is employed to teach;

(b) details of the type of school or institution at which the person is employed to teach and the name of the local education authority maintaining the school or institution if applicable;

(c) whether the employment is full-time or part-time;

(d) the post held by the person; and

(e) the date on which the person took up his or her current post.

(2) Where the person is not currently employed as a teacher, the date on which he or she was last so employed, and the details specified in paragraphs (a) to (e) of sub-paragraph (1) in relation to his or her most recent teaching post.

**10.** If the person is retired, on a career break, unemployed or employed otherwise than as a teacher.

**11.** Where the person holds a degree or equivalent qualification-

(a) the date of its award;

(b) its title;

(c) the institution by which it was awarded;

(d) the class of the degree or qualification; and

(e) the subject.

**12.** The date on which the person qualified as a teacher.

**13.** The date on which the person took up his or her first post as a qualified teacher.

**14.** Where the person has successfully completed a course for the initial training of teachers-

(a) the name of the institution providing the course;

(b) the title or description of the course;

(c) the subject or subjects studied by the person;

(d) the ages of pupils the course was designed to prepare the person to teach; and

(d) dyddiad dechrau a chwblhau'r cwrs.

15. Pan enillodd y person gymhwyster athro neu athrawes gymwysedig heblaw drwy gwblhau cwrs hyfforddiant cychwynol i athrawon ac athrawesau yn llwyddiannus -

(a) y math o raglen hyfforddi a gwblhawyd;

(b) enw'r ysgol neu'r sefydliad lle gwnaed yr ymarfer addysgu; ac

(c) dyddiad cwblhau'r rhaglen hyfforddi.

16. Os ydynt yn hysbys,

(a) manylion unrhyw gymhwyster sydd gan y person ar gyfer addysgu'r rhai y mae ganddynt nam ar eu golwg neu eu clyw, fel y cyfeirir ato yn rheoliad 11, 12 neu 13 o Reoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999**(a)**;

(b) os dyfarnwyd y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth i'r person, nodyn i ddweud hynny a dyddiad y dyfarniad;

(c) manylion unrhyw gymhwyster proffesiynol neu academaidd arall sydd gan y person; ac

(ch) os yw'r athro neu'r athrawes yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, nodyn i ddweud hynny.

17. Os yw'n hysbys -

(a) os yw'r person yn athro neu athrawes sydd wedi croesi'r trothwy, nodyn i ddweud hynny, y dyddiad y croesodd y person y trothwy ac enw'r ysgol lle'r oedd y person yn cael ei gyflogi pan groesodd y trothwy;

(b) os athro neu athrawes uwch-fedrau yw'r person, nodyn i ddweud hynny, y dyddiad yr ardystiwyd y person yn athro neu'n athrawes uwch-fedrau ac enw'r ysgol lle'r oedd y person yn cael ei gyflogi pan gafodd ei ardystio yn athro neu'n athrawes uwch-fedrau;

(c) os athro neu athrawes cynllun carlam yw'r person, nodyn i ddweud hynny, y dyddiad yr ymunodd y person â'r cynllun carlam, a'r ysgol lle'r oedd y person yn cael ei gyflogi pan ymunodd â'r cynllun carlam.

18.-(1)Pan yw'r person wedi bwrw cyfnod ymsefydlu neu ran o gyfnod ymsefydlu, boed yng Nghymru neu Loegr, -

(a) enw'r corff priodol (o fewn ystyr *"appropriate body"* yn adran 19 o Ddeddf 1998);

(b) y dyddiad y dechreuodd y person y cyfnod ymsefydlu;

(c) os yw'n gymwys, nodyn i ddweud bod y person wedi cwblhau'r cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus, a dyddiad ei gwblhau;

(a) O.S. 1999/2817 (Cy. 18).

(e) the date on which the course started and was completed.

15. Where the person qualified as a teacher other than by successfully completing a course for the initial training of teachers-

(a) the type of training programme completed;

(b) the name of the school or institution at which the teacher training was undertaken; and

(c) the date on which the training programme was completed.

16. If known,

(a) particulars of any qualification held by the person for teaching the visually or hearing impaired such as is referred to in regulation 11, 12 or 13 of the Education (Teachers' Qualifications and Health Standards) (Wales) Regulations 1999**(a)**;

(b) where the person has been awarded the National Professional Qualification for Headship, an indication of that fact and the date of the award;

(c) particulars of any other academic or professional qualification held by the person; and

(d) where the teacher is able to teach through the medium of Welsh, an indication of that fact.

17. If known-

(a) where the person is a teacher who has passed the threshold, an indication of that fact, the date on which the person passed the threshold and the name of the school at which the person was employed when he or she passed the threshold;

(b) where the person is an advanced skills teacher, an indication of that fact, the date on which the person was certified as such, and the school at which the person was employed when he or she was certified as an advanced skills teacher;

(c) where the person is a fast track teacher, an indication of that fact, the date on which the person joined the fast track, and the school at which the person was employed when he or she joined the fast track.

18.-(1)Where the person has served an induction period or part of an induction period, whether in England or in Wales, -

(a) the identity of the appropriate body (within the meaning of section 19 of the 1998 Act);

(b) the date on which the person started the induction period;

(c) where applicable, an indication that the person successfully completed the induction period, and the date of its completion;

(a) S.I. 1999/2817 (W. 18).

(ch) os yw'n gymwys, nodyn i ddweud bod y person wedi methu â chwblhau'r cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus;

(d) os yw'n gymwys, nodyn i ddweud bod y cyfnod ymsefydlu wedi'i estyn ar gyfer y person, a chyfnod yr estyniad; a

(dd) os yw'n gymwys, nodyn i ddweud mai rhan yn unig o'r cyfnod ymsefydlu sydd wedi'i chwblhau gan y person, a'r cyfnod sydd wedi'i fwrw.

(2) Pan nad yw'r person wedi bwrw cyfnod ymsefydlu,

(a) a yw'r person yn esempt rhag y gofyniad i fwrw cyfnod ymsefydlu, a'r rheswm dros yr esemptiad; neu

(b) os nad oedd yn ofynnol bwrw cyfnod ymsefydlu ar yr adeg berthnasol, datganiad o'r ffaith honno**(a)**.

**19.** Os yw'n gymwys, nodyn i ddweud bod y person wedi methu cyfnod prawf, ac a yw'r Cynulliad Cenedlaethol neu'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cydsynio i'r person gael ei gyflogi fel athro neu athrawes o dan reoliadau a wnaed o dan adran 218(1) a (2) o Ddeddf 1988**(b)**.

**20.** Pan yw'r person yn athro neu'n athrawes gymwysedig sy'n anghymwys i gael ei gofrestru yn unol ag adran 3(3) o Ddeddf 1998 a rheoliadau o dan adran 4 ohoni, manylion y cyfarwyddyd, y gorchymyn disgyblu neu'r gwaharddiad arall y mae'r person yn anghymwys i'w gofrestru o'i herwydd.

**21.** Pan yw enw'r person wedi'i dynnu oddi ar y Gofrestr, manylion ar ba sail y cafodd enw'r person ei dynnu oddi ar y Gofrestr.

**22**. Telerau unrhyw gyfyngiad neu fanylion unrhyw waharddiad sydd mewn grym am y tro mewn perthynas â'r person o ganlyniad i gyfarwyddyd a roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhinwedd adran 218(6) o Ddeddf 1988**(c)**.

**23.** Telerau unrhyw gyfyngiad neu fanylion unrhyw waharddiad sydd mewn grym am y tro mewn perthynas â'r person o ganlyniad i achos disgyblu a ddygwyd gan Gyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban.

**24.** Os yw'n gymwys, nodyn bod y person wedi ymddeol o dan reoliad E4(4) o Reoliadau Pensiwn Athrawon 1997**(ch)** (ymddeoliad afiechyd).

(a) Adeg gwneud y Gorchymyn hwn, nid oedd ymsefydlu'n ofynnol ar gyfer athrawon ac athrawesau yng Nghymru; nid oedd rheoliadau wedi'u gwneud o dan adran 19 o Ddeddf 1998 mewn perthynas â Chymru. Mae'r gofyniad ynghylch cyfnod ymsefydlu yn Lloegr yn gymwys ers 1 Medi 1999 (O.S. 1999/1065).

(b) Gweler nodyn (c) ar dudalen 3 uchod.

(c) Adeg gwneud y Gorchymyn hwn y rheoliadau mewn grym o dan y ddarpariaeth hon oedd Rheoliadau Addysg (Athrawon) 1993 (O.S. 1993/543); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S 1995/2594 a 1998/1584.

(ch) O.S. 1997/3001 y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(d) where applicable, an indication that the person has failed successfully to complete the induction period;

(e) where applicable, an indication that the person has had the induction period extended, and the period of the extension; and

(f) where applicable, an indication that the person has completed only part of an induction period, and the period served.

(2) Where the person has not served an induction period,

(a) if the person is exempt from the requirement to serve an induction period and the reason for the exemption; or

(b) if there was no requirement on the person to serve an induction period at the relevant time, a statement of that fact**(a)**.

**19**. If applicable, an indication that the person has failed a period of probation, and whether the National Assembly or the Secretary of State has consented to his or her employment as a teacher under regulations made under section 218(1) and (2) of the 1988 Act**(b)**.

**20.** Where the person is a qualified teacher who is ineligible for registration pursuant to section 3(3), and regulations under section 4, of the 1998 Act, particulars of the direction, disciplinary order or other prohibition by virtue of which the person is ineligible for registration.

**21.** Where the person's name has been removed from the Register, particulars of the grounds on which the person's name was removed from the Register.

**22.** The terms of any restriction or particulars of any prohibition for the time being in force in relation to the person as the result of a direction given by the National Assembly or the Secretary of State by virtue of section 218(6) of the 1988 Act**(c)**.

**23.** Terms of any restriction or particulars of any prohibition for the time being in force in relation to the person as a result of disciplinary action taken by the General Teaching Council for Scotland.

**24.** If applicable, an indication that the person has retired under regulation E4(4) of the Teachers' Pensions Regulations 1997**(d)** (ill health retirement).

(a) When this Order was made, induction was not a requirement for teachers in Wales; no regulations had been made under section 19 of the 1998 Act in relation to Wales. The requirement to have an induction period in England applies from 1st September 1999 (S.I. 1999/1065).

(b) See note (b) on page 4 above.

(c) At the time of making this Order the regulations in force under this provision were the Education (Teacher) Regulations 1993 (S.I. 1993/543); the relevant amending instruments are S.I. 1995/2594 and 1998/1584.

(d) S.I. 1997/3001 to which there are amendments not relevant to this Order.

OFFERYNNAU STATUDOL

**2000 Rhif 1941 (Cy.139)**

**ADDYSG, CYMRU**

Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000

STATUTORY INSTRUMENTS

**2000 No. 1941 (W.139)**

**EDUCATION, WALES**

The General Teaching Council for Wales (Additional Functions) Order 2000

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg El Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090102-9

9 780110 901022

**£2.50**

W62 08/00 ON